# Amddiffyn safleoedd tir

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’r gweithgareddau sy’n ofynnol i amddiffyn safleoedd tir trwy gynnal diogeledd y safle i atal gweithgarwch anawdurdodedig ac anghyfreithlon.

Mae’n cynnwys nodi bygythiadau diogeledd a lleihau cyfleoedd am doriadau trwy gynnal gweithdrefnau diogeledd, ynghyd â gweithredu i atal troseddau ar safleoedd tir ac adnabod a delio ag unrhyw weithgareddau anawdurdodedig ac anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys rhoi camau ar waith i gynnal diogeledd safle, monitro safle ac adnabod tor-diogeledd a chymryd y camau gofynnol.

Mae’r safon hon yn addas i bobl sy’n gweithio mewn galwedigaethau tir gan gynnwys Dyframaeth, Cadwraeth, Rheoli Ystâd, Gwaith Ciper, Ffermio, Coedwigaeth, Garddwriaeth ac ati.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud eich gwaith yn ddiogel, yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol, gofynion asesiadau risg, codau ymarfer a gweithdrefnau sefydliadol
2. bod yn ymwybodol o fygythiadau posibl i ddiogeledd ar y safle tir, gan gynnwys mewn ardaloedd anghysbell ac unig
3. gweithredu a chynnal y camau y cytunwyd arnynt i amddiffyn safleoedd rhag gweithgareddau anawdurdodedig ac anghyfreithlon sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol sy'n benodol i wlad, codau ymarfer a gweithdrefnau sefydliadol
4. cynnal pob hysbysiad a dyfais a ddefnyddir i reoli diogeledd ar y safle tir mewn cyflwr da
5. cyfleu gofynion diogeledd i aelodau'r cyhoedd yn briodol, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
6. delio'n gwrtais ag ymwelwyr, gwestion a'r cyhoedd, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
7. cydweithredu â rheolwyr tir eraill, cymdogion a chyrff eraill i wella diogeledd safle ac atal troseddu
8. bod yn effro yn ystod pob gweithgaredd gwaith am arwyddion o fygythiad i ddiogeledd neu dorri'r gyfraith
9. nodi aelodau'r cyhoedd a all achosi bygythiadau a thorri'r gyfraith er mwyn cymryd camau priodol i leihau risgiau
10. monitro a dehongli arwyddion sy'n awgrymu amheuaeth o fygythiad i ddiogeledd neu dor-cyfraith a defnyddio'r dulliau perthnasol i gael tystiolaeth, yn unol â gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol
11. asesu'r sefyllfa a chymryd y camau gofynnol yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol ac asesu natur y bygythiad i ddiogeledd neu'r tor-cyfraith, heb beri risg i chi'ch hun nac i eraill
12. rhoi gwybod am dor-cyfraith i'r awdurdod priodol, gan ddarparu manylion llawn am y digwyddiad
13. diogelu cyfanrwydd tystiolaeth lle y gallai fod ei hangen e.e. at ddibenion erlyn neu yswiriant
14. cofnodi'r holl fanylion am ddigwyddiadau diogeledd neu dor-cyfraith, a rhoi gwybod amdanynt, yn unol â gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol yn gysylltiedig â chi'ch hun, eich cydweithwyr a'r cyhoedd, gan gynnwys ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun
2. y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n benodol i wlad, y codau ymarfer a gofynion eich sefydliad o ran delio â bygythiadau diogeledd a thorri cyfraith droseddol a sifil
3. y ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt a'r bygythiadau y gall y cyhoedd eu peri i safleoedd
4. beth yw herwhela a sut mae hyn yn wahanol i fathau eraill o droseddau
5. pwysigrwydd cynnal diogeledd seilwaith ac asedau ar y safle tir, yn enwedig eitemau dymunol
6. yr ardaloedd ar y safle tir y mae risg fwyaf digwyddiadau diogeledd iddynt
7. y camau y gellir eu cymryd i amddiffyn safleoedd rhag gweithgareddau anawdurdodedig ac anghyfreithlon, gan gynnwys defnyddio hysbysiadau, gatiau, rhwystrau, camerâu a dyfeisiau eraill, a phwysigrwydd cynnal y rhain mewn cyflwr da
8. y gofyniad am deledu cylch cyfyng a chuddwylio i gydymffurfio â holl safonau a gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
9. pam mae cyfleu gofynion diogeledd yn effeithiol yn bwysig i amddiffyn safleoedd a sut i wneud hyn
10. pwysigrwydd cydweithredu â rheolwyr tir eraill, cymdogion a chyrff eraill i amddiffyn safleoedd ac atal troseddu
11. sut i adnabod arwyddion sy'n awgrymu amheuaeth o fygythiadau diogeledd a beth sy'n dor-cyfraith
12. pwysigrwydd cael tystiolaeth a sut gellir gwneud hyn
13. sut i ddelio ag amheuon o fygythiadau i ddiogeledd neu dor-cyfraith a phwerau cyfreithiol pobl awdurdodedig i ddelio â herwhela a mathau eraill o droseddau gwledig
14. sut i ddelio ag aelodau'r cyhoedd sy'n achosi bygythiad i ddiogelwch safle heb beri risg i chi'ch hun ac i eraill, gan gynnwys pwysigrwydd cwrteisi a phendantrwydd
15. pwerau cyfreithiol pobl awdurdodedig i ddelio â herwhela a mathau eraill o droseddau gwledig
16. sut i ddelio ag ymddygiad ymosodol a sarhaus a defnyddio tactegau tawelu i ddelio â gwrthdaro

17. i bwy y dylid rhoi gwybod am dor-cyfraith a’r wybodaeth y bydd ei hangen arnynt
18. pam mae’n bwysig diogelu cyfanrwydd tystiolaeth, a phwysigrwydd tarddiad a phwys tystiolaeth mewn ymchwiliadau
19. sut i gasglu, cofnodi a rhoi gwybod am dystiolaeth o weithgarwch anawdurdodedig ac anghyfreithlon, a phwysigrwydd cywirdeb yn y materion hyn i gefnogi erlyniadau

## Geirfa

Gallai **tor-cyfraith** gynnwys:

- dwyn
- difrod troseddol
- difrodi
- cynnau tân
- defnydd anghyfreithlon ar ddatgelydd metel
- defnydd anghyfreithlon ar ddronau gan ladron i weld beth sydd ar gael ar safle
- taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon
- bygythiadau
- ymosodiad
- ymosodiadau gan gŵn ar dda byw, bywyd gwyllt a phobl
- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus
- tresmasu/torri rheoliadau mynediad
- troseddau treftadaeth
- troseddau bywyd gwyllt e.e.
    - tarfu
    - erlid
    - herwhela
    - rhyddhau rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) i'r gwyllt neu ryddhau rhywogaethau planhigion neu anifeiliaid y tu hwnt i'w cynefin cynhenid

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

Gallai **dulliau monitro diogelwch** gynnwys:

- patrolau
- dronau
- delweddu thermol
- gweld yn y nos
- teledu cylch cyfyng
- camerâu llwybr
- camerâu'r corff
- camerâu cerbydau
- ANPR (Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig)

**Gallai bygythiadau** fod i:

- y safle a'i gynnwys
- y dreftadaeth naturiol ac adeiledig
- fflora a ffawna
- eich iechyd, diogelwch neu ddiogeledd personol chi
- iechyd, diogelwch a diogeledd pobl eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS99 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Ceidwad Parc, Gweithiwr Ystâd, Ciper, Rheolwr Parc, Ceidwad, Coedwigaeth, Ffermwr Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | diogeledd; digwyddiad; fandaliaeth; dwyn |